Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfuno

## Cyflawni yn 2020-21 & Adroddiad am 2019-20

Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant



#CyfunoFusion

# Cynnwys

## Rhan 1: Cyflawni Cyfuno yn 2020-21


4 Cyflwyniad

5 Cynllun Grantiau Her

6 Ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (y Pwyllgor)

7 Rhaglen Cyfuno: Symud Ymlaen

8 Ymateb i bandemig COVID-19

10 Astudiaeth Achos: Taith Tara


## Rhan 2: Adroddiad Cyfuno 2019/20


12 Ffeithlun Cyfuno

13 Cynllun y Grant Her: Cyflawniadau yn 2019–20

15 Astudiaeth Achos: Cyfleoedd i Wirfoddoli

16 Prosiectau Eraill Rhaglen Cyfuno

17 Astudiaeth Achos: Noson Allan yng Nghasnewydd

18 Kids in Museums

19 Uchelgais Diwylliannol, Arts Awards & Pecyn Llesiant

20 Blwyddyn Lwyddiannus Arall

21 Atodiad 1: Rhaglenni Grantiau Her Cyfuno yn 2020-21

29 Atodiad 2: Partneriaid Cyfuno Cenedlaethol

30 Atodiad 3: Wyth dangosydd y Rhaglen Cyfuno


OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40694 ISBN Digidol 978-1-80038-937-3 © Llun y Clawr: Amgueddfa Caerdydd / Gŵyl Amgueddfeydd Cymru

# Rhan 1: Cyflawni Cyfuno 2020/21

# Cyflwyniad

Sefydlwyd Rhaglen Cyfuno gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i ***adroddiad Diwylliant a Thlodi*** y Farwnes Andrews, a gyhoeddwyd yn 2014. Roedd yr adroddiad yn annog sefydliadau diwylliant a threftadaeth i gydweithio'n agosach â chyrff fel awdurdodau lleol er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl mewn ardaloedd dan anfantais economaidd.

Mae Cyfuno wedi datblygu amrywiaeth o bartneriaethau, adnoddau a dulliau arloesol o weithio i gyflawni nodau'r adroddiad. Drwy alluogi ac annog pobl i gyfranogi mewn diwylliant a threftadaeth, y gobaith oedd y byddai trigolion mewn ardaloedd difreintiedig yn cael budd o'r cyfleoedd a ddarperid ganddynt.

Ymhlith y rhain mae cyfleoedd i wirfoddoli, cael profiad gwaith a gwella sgiliau digidol. Rhoddir pwyslais hefyd ar flynyddoedd cyntaf a dysgu teuluoedd, gan wella agweddau at ddysgu a llesiant. Yn 2018, penderfynwyd cynnwys cynyddu cydlyniant cymunedol fel cyflawniad i'r rheini sy'n arwain ac yn cymryd rhan yn Cyfuno.

Mae rhaglen Cyfuno wedi darparu cyllid i fentrau fel y Cynllun Hyrwyddwyr Ifanc, elusen Kids in Museums, y Rhaglen Uchelgais Diwylliannol ac ar gyfer creu modiwlau gwirfoddoli ar-lein. Roedd y prosiectau hyn i gyd yn rhan o amcanion ehangach rhaglen Cyfuno ac yn cael eu cefnogi gan ein partneriaid, gweler atodiad 2.



*© Terry Morris*

# Cynllun Grantiau Her

Yn 2017, dyfarnwyd cyllid Grantiau Her i wyth corff:

- **Caerdydd**
- **Sir Gaerfyrddin**
- **Conwy**
- **Gwynedd**
- **Casnewydd**
- **Abertawe**
- **Torfaen a Chaerffili fel rhaglen ar y cyd**
- **Castell-nedd Port Talbot**

Arweiniwyd pob un o'r rhain gan awdurdodau lleol, ac eithrio Castell-nedd Port Talbot, a arweiniwyd gan gymdeithas dai Tai Tarian.

Y nod oedd y byddai pob corff arweiniol yn cyflwyno rhaglenni strategol gan ddefnyddio diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau er mwyn cefnogi cyflogadwyedd, gweithgarwch grymuso, y blynyddoedd cynnar ac iechyd a lles – i'r rhai sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Cafodd y cam hwn o'r rhaglen ei gynnal am dair blynedd i ddechrau.

Yn 2020, cafodd cynllun Grantiau Her ei ail-lansio am flwyddyn arall o leiaf (Ebrill 2020 – Mawrth 2021) gan ystyried cynlluniau ar gyfer dyfodol Cyfuno ar yr un pryd.


Mae pob un o'r cyrff yn gweithio gydag amrywiaeth o gyrff diwylliant, treftadaeth a chelfyddydau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys partneriaid fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Cadw. Maent hefyd yn gweithio gyda sefydliadau eraill gan gynnwys cyrff gwirfoddoli, cymdeithasau tai, gwasanaethau iechyd, ysgolion, asiantaethau cymunedol a rhaglenni cyflogadwyedd fel Cymunedau am Waith, a rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Penododd pob un o'r cyrff arweiniol gydgysylltwyr lleol Cyfuno er mwyn ei gwneud yn bosibl i greu rhaglenni a phartneriaethau mwy effeithiol. Mae rôl cydgysylltydd yn cynnwys helpu i feithrin cysylltiadau cryfach a mwy cydnerth rhwng y cyrff hyn. Ceir grwpiau partneriaeth rhwydwaith yn y rhan fwyaf o ardaloedd y Grantiau Her, sy'n grymuso ac yn cefnogi gwaith Cyfuno.

Disgwylir y bydd y gweithgareddau a'r digwyddiadau y mae cydgysylltwyr Cyfuno yn eu trefnu a'u cychwyn yn cyd-fynd â dangosyddion perfformiad Cyfuno (Atodiad 3). Mae'r cyrff arweiniol yn adrodd yn ôl i dîm Cyfuno Llywodraeth Cymru bob chwe mis. Cafodd cydgysylltwyr y Grantiau Her hyfforddiant gwerthuso er mwyn sicrhau bod y prosiectau a'r digwyddiadau a gynhelir yn cynnig y safon a'r gwerth gorau i'r rhai sy'n mynychu. Mae Cyfuno hefyd yn gweithio gyda chydgysylltydd gwerthuso Amgueddfa Cymru i gefnogi a chynghori'r cydgysylltwyr yn y maes hwn.

Mae'r cynllun Grantiau Her wedi bod yn llwyddiannus iawn o'r dechrau gyda nifer cynyddol o bobl yn cymryd rhan ac yn manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir.

# Ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (y Pwyllgor)




## Gwybodaeth gefndirol

Cynhaliodd y Pwyllgor Ymchwiliad i'r Celfyddydau a Diwylliant yng Nghymru yn 2019, a chanlyniad hyn oedd adroddiad o'r enw: Minnau hefyd! Mae copi o'r adroddiad llawn, sy'n ymdrin â threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy ddiwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau, i'w weld yma: ***busnes.senedd.cymru/documents/s95457/Adroddiad.pdf***

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'w weld yma: ***busnes.senedd.cymru/documents/s96785/Ymateb%20Llywodraeth%20Cymru.pdf***

I grynhoi, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion yr adroddiad. Fodd bynnag, bydd COVID-19 yn cael effaith ar yr hyn y gallwn ei ddarparu yn ystod y flwyddyn nesaf.

Dyma'r argymhellion ar gyfer Cyfuno:

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad ar raddfa fawr o raglen Cyfuno sy'n asesu'r amcanion gwreiddiol, y cyllid a'r gwerthusiad.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid rhaglen Cyfuno i roi sicrwydd deiliadaeth i Gydgysylltwyr Cyfuno.

**Argymhelliad 6.** Dylid ystyried cynyddu mynediad i'r lleoliadau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i'r rhai sydd mewn tlodi neu sydd mewn perygl o allgáu cymdeithasol fel un o amcanion Trafnidiaeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau i Trafnidiaeth Cymru ymrwymo i bartneriaethau â sefydliadau diwylliannol ar gyfer digwyddiadau a/neu leoliadau penodol i drefnu bod mynediad i'w gweithgareddau am ddim neu â chymhorthdal. Dylid cyflwyno adroddiad ar y cynlluniau peilot hyn i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer rhaglen Cyfuno i alluogi cyfranogwyr i hawlio costau cysylltiedig megis trafnidiaeth.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor ar y cynigion ar gyfer datblygu set ddata ansoddol ar raglen Cyfuno a'r amserlen i'w hymgorffori yn y fethodoleg werthuso.

# Rhaglen Cyfuno: Symud Ymlaen

Mae nodau ac amcanion Cyfuno yn cael eu hymgorffori'n gynyddol ym mhob rhan o'r sector diwylliant a threftadaeth. Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru bolisïau i gynnwys cymunedau mewn ardaloedd difreintiedig mewn gweithgareddau diwylliannol a'u hannog i gymryd rhan.

Bydd yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon yn parhau i weithio tuag at nodau ac amcanion rhaglen Cyfuno drwy gydweithredu â'i rhanddeiliaid a chefnogi partneriaethau Cyfuno.

Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i'r prif flaenoriaethau y mae angen gweithredu arnynt ar lefel genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cymryd camau dilynol mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgor, yn enwedig o ran trafnidiaeth a mynediad i leoliadau diwylliannol**
- **Gweithio gyda phartneriaid yn y cynllun sector diwylliant a threftadaeth i hybu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig**
- **Gweithio gydag adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y sector diwylliannol yn chwarae mwy o rôl o ran helpu i gyflawni ein blaenoriaethau sy'n ymwneud â chyflogadwyedd, iechyd, addysg a chymunedau cydlynus.**

Bydd yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon yn parhau i gefnogi partneriaethau Cyfuno mewn amryw ffyrdd, gan ymateb i anghenion. Bydd y gefnogaeth yn cynnwys:

- **Eiriolaeth a hybu'r defnydd o ddiwylliant a threftadaeth i gynnig cyfleoedd i bobl mewn ardaloedd difreintiedig**
- **Sesiynau rhwydweithio a hyfforddi, adnoddau a chyngor**
- **Helpu i ddod o hyd i ffynonellau o gyllid allanol**
- **Rhaglenni hyfforddiant mewn meysydd megis Gwobr y Celfyddydau**
- **Cyngor a hyfforddiant ar werthuso a monitro effeithiol**
- **Hyrwyddo rhaglen Cyfuno a darparu eiriolaeth**

Cynlluniwyd adolygiad annibynnol o ganlyniad i argymhellion y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r data ansoddol sydd eisoes wedi cael eu casglu gan ardaloedd Cyfuno a chasglu data ansoddol newydd ar ffurf astudiaethau achos. Mae'r data a gasglwyd gan Cyfuno drwy gydgysylltwyr y grantiau her i'w gweld yn Atodiad 3.

# Ymateb i bandemig COVID-19

Wrth i'r ddogfen hon gael ei chyhoeddi, mae disgwyl i'n dyfodol newid o ganlyniad i bandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud yn sgil hynny. Rhoddwyd pwysau ar gyllidebau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a chyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth nifer o Gronfeydd Cadernid i gefnogi'r sector. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Cadernid Diwylliannol o £1 miliwn. Mae cyllidebau ar draws yr Is-adran wedi'u lleihau er mwyn cymhwyso'r gronfa. Mae Cyfuno yn parhau i fod yn ymrwymedig i ganfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ond ni all eu datblygu ar hyn o bryd.

## Astudiaeth Achos - Amgueddfa Cymru Gardd GRAFT

**Mae'r astudiaeth achos hon yn enghraifft o'r ffordd y mae Cyfuno yn addasu ac yn rheoli'r sefyllfa o ran Covid-19**

GRAFT yw prosiect addysg a thir bwytadwy Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, ac mae'n ddarn o seilwaith gwyrdd parhaol yng Nghanol Dinas Abertawe.

Mae GRAFT yn gweithio gyda grwpiau cymunedol o amrywiaeth eang o gefndiroedd ledled y ddinas i drawsnewid cwrt yr Amgueddfa, a arferai fod yn llecyn o dir diwydiannol, yn amgylchedd tyfu cynaliadwy, organig, gan greu tirlun bwytadwy er mwyn annog cyfranogiad a thrafodaeth am ddefnydd tir, bwyd a chynaliadwyedd mewn ffordd hygyrch a grymusol.




*© Amgueddfa Cymru*

Mae gwirfoddolwyr hen ac ifanc yn cydweithio i rannu sgiliau, gweithio gyda phren a metel, dysgu sut i dyfu planhigion ac ennill cymwysterau. Mae prentisiaethau llwyddiannus wedi cael eu datblygu, ac mae'r buddion hirdymor i iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â gweithio yn yr awyr agored yn amlwg.

Er na fu modd i dîm a gwirfoddolwyr prosiect GRAFT Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ymgynnull yn ystod pandemig COVID-19, gwnaethant gadw'n brysur yn sefydlu 'Hadau Allan yn y Gymuned' a'n hannog ni i gyd i dyfu blodau haul mewn mannau gweladwy a chyhoeddus i ddangos cefnogaeth i weithwyr allweddol.

Bydd Cyfuno yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio ac i ddysgu o hyn. Disgwylir i arferion gwaith newid yn unol â hyn a chaiff y wybodaeth ei rhannu fel sy'n briodol. Mae'r astudiaeth achos uchod yn enghraifft o'r ffordd y mae Cyfuno yn addasu i COVID-19 ac yn cynnwys y gymuned.

Bydd cydgysylltwyr y Grantiau Her yn adeiladu ar yr hyn a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol ac yn meithrin rhwydweithiau lleol yn yr ardaloedd lle maent yn gweithio er mwyn creu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio diwylliant a threftadaeth i wella'u llesiant a'u ffyniant. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o fanylion am y gwaith y byddant yn ei wneud yn eu hardaloedd lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Hyd yma, mae'r cydgysylltwyr wedi datblygu atebion arloesol mewn ymateb i'r pandemig. Rhestrir rhai enghreifftiau isod:

- **Cynnal mini-gyngherddau ar-lein.**
- **Llwybr celf a chrefft o gwmpas ardal cymuned leol.**
- **Weminarau ar-lein fel 'Where I am coming from' i gefnogi BAME.**
- **Cynnwys digidol gan Venue Cymru**
- **Rhannodd Incredible Edibles becyn hadau a chompost i fynd i'r afael ag unigedd.**
- **Prosiectau allgymorth.**
- **Sesiynau Zoom wythnosol.**
- **Rhannu gwybodaeth am adnoddau llyfrgelloedd lleol, e.e. gwasanaethau adrodd straeon.**
- **Sofa Share Wales – llwyfan cymunedol ar-lein sy'n cynnal sesiynau am ddim gyda chyfranogwyr, gan gynnwys ioga a choginio.**
- **Gweithdai ar-lein ar amryw bynciau.**

Mae elusen Kids in Museums yn parhau i gynnig cyfleoedd i amgueddfeydd dderbyn hyfforddiant a threfnu digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag amgueddfeydd. Mae ei hyfforddiant ar fod yn gyfeillgar i awtistiaeth yn arbennig o boblogaidd. O ganlynaid i'r pandemig presennol, bydd yr hyfforddiant a digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal ar-lein dros y flwyddyn nesaf lle bo hynny'n bosibl.




*© Suzanne Samuel*

Mae rhaglen Uchelgais Diwylliannol bellach yn ei blwyddyn olaf, gan roi cyfle i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant gwblhau cymhwyster NVQ lefel 2 mewn Treftadaeth Ddiwylliannol. Oherwydd y coronafeirws, mae'r amserlen hyfforddiant wedi'i diwygio a'i symud ar-lein. Bydd profiad gwaith ar safleoedd treftadaeth a redir gan bartneriaid Cyfuno (Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Gwasanaethau Archif a'r Ffederasiwn Amgueddfeydd) yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd y pandemig presennol wedi'i liniaru, gobeithio.

Mae cynllun Nosweithiau Allan Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i ariannu am flwyddyn ychwanegol. Mae'r cynllun wedi'i ohirio am y tro oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol.

Gyda mwy o bobl yn ynysig a newidiadau i gymdeithas, mae diwylliant yn bwysicach nag erioed i gefnogi'r broses adfer. Mae Cyfuno yn dangos pa mor bwysig yw diwylliant, gyda'r astudiaeth achos ganlynol yn un o'r llu o enghreifftau o'r effaith y gall diwylliant ei chael ar fywyd unigolyn.

## Astudiaeth Achos 2: Taith Tara* o fewn rhaglen Cyfuno

**Mae'r astudiaeth achos hon yn enghraifft o'r ffordd y mae Cyfuno a'i rwydwaith o bartneriaid yn cydweithio i hyrwyddo a chynnig cyfleoedd drwy'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.**

Mae swyddogion ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn gweithio gyda Cyfuno ac amryw bartneriaid celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i gynnig amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu cadarnhaol i'r disgyblion mwyaf difreintiedig. Ym mis Hydref 2016, atgyfeiriwyd Tara (disgybl Blwyddyn 7) at y Swyddog Ieuenctid yn ei hysgol uwchradd gan nad oedd ganddi lawer o hyder na hunan-barch. Roedd Tara hefyd yn ei chael hi'n anodd gwneud ffrindiau. Ei nod oedd goresgyn materion anodd a nodwyd, gyda'r bwriad o setlo i mewn i fywyd ysgol a ffurfio cyfeillgarwch â'i chyfoedion.

Pan oedd ym Mlwyddyn 8, cafodd Tara gyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwaith grŵp. Cymerodd ran yn y prosiect Hyrwyddwyr Ifanc, ymunodd â grŵp cerdded a llesiant ac aeth i weithgareddau yn ystod gwyliau ysgol a drefnwyd gan y swyddog ieuenctid.

Ym Mlwyddyn 9, cymerodd Tara ran ym mhrosiect *Treftadaeth Ddisylw* a gefnogir gan Cyfuno, ac ers hynny, mae wedi ffynnu a magu hyder. Mae wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gan gynnwys y canlynol: prosiect creu barddoniaeth; gwaith cloddio ym Mharc Howard; prosiect cerflunio, a phrosiect Llenyddiaeth Cymru. Yn gynnar yn 2019, teithiodd Tara i Agen, Ffrainc, ar daith gyfnewid. Yn sgil hyn, gwnaeth gyflwyniad ar brosiect *Treftadaeth Ddisylw*. Mae hefyd wedi cyfrannu at greu ffilm fer a chyfweld ag aelodau allweddol o staff yr ysgol. Yn ystod gwyliau'r haf, cymerodd Tara ran ym mhrosiect Lleisiau Llanelli drwy People Speak Up, sy'n gwmni celfyddydau sy'n gweithredu yn Llanelli.

Mae Tara ym Mlwyddyn 10 erbyn hyn ac yn cymryd rhan yng Ngwobr Efydd Dug Caeredin; ac mae'n gobeithio cwblhau'r wobr erbyn mis Gorffennaf 2020. Mae hefyd yn dysgu i chwarae'r gitâr, wedi dechrau bocsio ac mae'n gwirfoddoli'n rheolaidd yn y clwb celf ar ôl ysgol, gan gefnogi disgyblion Blwyddyn 7 ac 8.

O ran mesur y pellter a deithiwyd mewn tair blynedd, mae'n berson ifanc gwahanol iawn erbyn hyn. Mae Tara, a arferai fod yn rhy swil i siarad, wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a ddaeth i'w rhan. Wrth wneud hynny, mae wedi dod yn unigolyn mwy hyderus sy'n ymfalchïo yn ei hymddangosiad ac yn edrych yn ddilychwin. Mae ganddi grwpiau o ffrindiau cadarnhaol a chydberthynas â'i mam. Nid oes ofn arni i fynd allan i gymdeithasu bellach ac mae'n falch o'i rhywioldeb.

Bydd Tara yn parhau i gael ei chefnogi a chaiff gynnig cymorth pontio yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Mae Cyfuno a'i bartneriaid wedi cefnogi ei thaith pontio, a bydd yn parhau i wneud hynny, lle y bo'n bosibl.

*newidiwyd yr enw er mwyn sicrhau ei bod yn anhysbys

# Rhan 2: Adroddiad Cyfuno 2019/20

# Cyfuno

## Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Cyfuno yn defnyddio diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau ar draws wyth ardal yng Nghymru

### Ennill Cymhwyster

Tros **800** o unigolion

### Dysgu'r Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd

Gweithgareddau gyda **18,000** o gyfranogwyr

### Gwella Agwedd at Ddysgu

Cynnwys **4,000** o bobl mewn digwyddiadau a phrosiectau

### Cydlyniant Cymunedol

Daeth dros **4,000** o weithdai, gweithgareddau a digwyddiadau

### Gwirfoddoli

Daeth hyd at **700** o bobl yn wirfoddolwyr

### Lleoliadau Gwaith

Cafodd dros **250** o unigolion leoliadau

### Gwell Sgiliau Digidol

Derbyniodd dros **1,500** o bobl hyfforddiant

### Helpu i Reoli Llesiant

Cyrraedd dros **4000** o bobl




Daw'r holl ffigurau o ddata a gofnodwyd gan gydgysylltwyr Cyfuno

**Mae Cyfuno wedi gweithio gyda'r canlynol:**

- Animeiddio
- Siediau dynion
- Partïon stryd
- Drymiau Affricanaidd
- Gweithdai adrodd stori
- Llwybrau amgueddfeydd
- Sesiynau myfyrio
- Cyn-filwyr
- Olrhain llinach
- Prosiectau chwedlau Cymreig

**A mwy....**

**#CyfunoFusion**

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40693

# Cynllun y Grant Her: Cyflawniadau yn 2019-20

Ers dechrau Cynllun y Grant Her yn 2017 mae'r cyrff arweiniol wedi dangos canlyniadau rhagorol. Mae'r ffigurau a gyflwynwyd gan gydlynwyr ardaloedd Cynllun y Grant Her wedi dangos bod niferoedd cynyddol wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau a gafodd eu trefnu fel rhan o'r rhaglen yn ystod y tair blynedd.

Yn 2019–20 cafodd cyfranogwyr yn ardaloedd Grant Her Cyfuno gyfleoedd i wneud y canlynol:

- **trefnu a chymryd rhan mewn perfformiadau lleol drwy brosiect Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru,**
- **gwella eu sgiliau digidol drwy weithdai sganio, animeiddio a gwneud ffilmiau,**
- **cymryd rhan mewn prosiectau celf seramig a llên gwerin,**
- **mynychu sesiynau adrodd storïau a hel atgofion**
- **gwirfoddoli neu ennill profiad gwaith mewn lleoliadau diwylliannol neu dreftadaeth,**
- **meddiannu amgueddfa leol**
- **helpu i drefnu a chymryd rhan mewn parti stryd cymunedol,**
- **mynychu gwersi sgiliau dawnsio wythnosol**
- **mynd i leoliadau diwylliannol lleol nad oeddent yn gwybod eu bod yn bodoli,**
- **ysgrifennu ac adrodd barddoniaeth,**
- **dysgu am eu hynafiaid,**
- **ennill cymhwyster Arts Award,**
- **gwneud tapestri gyda'u ffrindiau,**
- **cyfrannu at arddangosfeydd o ddiwylliant a threftadaeth,**
- **defnyddio celfyddydau a chrefftau i'w mynegi eu hunain ac i wella eu llesiant.**

Cafdd yr holl ddigwyddiadau hyn, a digwyddiadau eraill, eu cynnal fel rhan o Gynllun y Grant Her.

Mae cryfderau penodol y cynllun yn 2019–20 yn cynnwys*:

- **Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu: Mae cofnodion yn dangos i bron 5,000 o unigolion gymryd rhan mewn prosiectau neu weithgareddau yn 2017–18, blwyddyn gyntaf y cynllun. Mae hyn wedi codi i dros 18,000 erbyn diwedd 2019–20.**
- **Sgiliau Digidol Gwell: Mae nifer y bobl sy'n mynychu cyrsiau neu weithgareddau sydd â'r nod o wella eu sgiliau digidol wedi codi o 50 yn y flwyddyn gyntaf i dros 1,500 yn 2019–20.**
- **Cydlyniant Cymunedol: Cyflwynwyd y maes hwn yn 2019, ac mae'n galonogol gweld bod dros 4,000 o bobl wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddigwyddiadau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol.**

Yn ogystal, mae dwywaith cymaint o bobl bellach wedi ennill cymhwyster, wedi cymryd rhan mewn cyfle i wirfoddoli neu wedi dangos agwedd well tuag at addysg ffurfiol yn ystod Cynllun y Grant Her.

Mae nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau rhaglen Cyfuno wedi treblu ers ei blwyddyn gyntaf. Yn y flwyddyn gyntaf cafodd 11,000 o brofiadau cyfranogol eu cofnodi. Cododd y ffigur hwn i 24,000 yn yr ail flwyddyn ac mae'r ffigur ar gyfer y drydedd flwyddyn hon tua 35,000. Mae'r twf yn y ffigurau yn dangos bod mwy a mwy o unigolion a grwpiau'n manteisio ar gyfleoedd drwy ddiwylliant a threftadaeth, oherwydd gwaith caled y cyrff arweiniol, y cydlynwyr a'u partneriaid.



*© Shirley Williams*

**Tabl o ystadegau'r Grant Her yn erbyn Dangosyddion Perfformiad ar gyfer y tair blynedd gyntaf**

| DANGOSYDD CYFUNO | 2017-18* | 2017-18* | 2019-20* | SYLWADAU |
|---|---|---|---|---|
| **F1 Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu** | 4979 | 13087 | **18908** | Pedair gwaith cymaint o fynychwyr ag yn y flwyddyn gyntaf, bron 1,900 o fynychwyr |
| **F2 Ennill cymhwyster** | 423 | 719 | **855** | Gwelliant o dros 100% o'i chymharu â'r flwyddyn gyntaf, dros 850 o unigolion |
| **F3 Gwirfoddoli'n rheolaidd fel ffordd o gael swydd** | 332 | 761 | **798** | Dwywaith cymaint o bobl yn cymryd rhan mewn cyfleoedd i wirfoddoli ag yn y flwyddyn gynaf, wedi codi i 800 bron |
| **F4 Cwblhau profiad gwaith** | 110 | 160 | **288** | Cynnydd cyson yn ystod y tair blynedd |
| **F5 Sgiliau digidol gwell** | 50 | 997 | **1619** | Cynnydd rhagorol yn y niferoedd |
| **F6 Agwedd well tuag at ddysgu ffurfiol** | 2689 | 3046 | **4103** | Dros 4,000 – dros 50% mwy nag yn y flwyddyn gyntaf |
| **F7 Y Gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well** | 2941 | 5400 | **4295** | Cofnodwyd dros 4,000 – dim cystal â'r flwyddyn flaenorol ond effeithiwyd ar weithgareddau gan COVID-19 |
| **F8 Sicrhau cydlyniant cymunedol gwell** | | | **4225** | Dros 4,000 – dangosydd newydd yn 2019–20 sydd wedi gweld canlyniadau rhagorol |

*Mae'r ffigurau'n dod o ystadegau a roddwyd gan gydlynwyr Grant Her Cyfuno, ac maent yn ddarostyngedig i gael eu dehongli gan y prif gasglwr.

## Astudiaeth Achos – Cyfleoedd i Wirfoddoli drwy Raglen Cyfuno

Aeth menyw sengl yn ei 30au at Gymunedau am Waith i ofyn am gymorth i ailymuno â'r gweithlu yn ar ôl byw yn yr Alban ers blynyddoedd lawer. Roedd rhaglen Cyfuno'n gallu trefnu iddi hi wirfoddoli yn rheolaidd yng Ngwasanaeth Archifau Conwy ac Amgueddfa Syr Henry Jones. Gwnaeth hi wirfoddoli mewn digwyddiad Cofio D-Day yn Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig/ Homefront, ac mewn diwrnod sganio cymunedol yn Llanrwst gyda Chasgliad y Werin Cymru yn y cyfnod cyn yr Eisteddfod Genedlaethol.



*© Shirley Williams*

Enillodd y fenyw Agored Lefel 2 mewn Sganio Digidol drwy raglen Cyfuno a phrosiect Casgliad y Werin Cymru yn Llanrwst. Wedyn cynigiwyd swydd rhan amser iddi mewn canolfan hamdden, a chafodd hi ei derbyn i wneud cwrs MA rhan amser ym Mangor, wedi'i ariannu'n rhannol, yn astudio'r Gymraeg a Llenyddiaeth Cymru  Roedd hi'n teimlo bod ei hamser yn yr archifau wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddi hi o sut mae casgliadau'n cael eu creu a'u catalogio mewn archifau a llyfrgelloedd. Roedd hi'n sicr bod y gwahanol rolau gwirfoddoli wedi gwneud cyfraniad mawr iawn at gynyddu ei hyder ar ôl bod yn ofalwr llawn amser ar gyfer aelod agos o'i theulu. Roedd gwirfoddoli yn allweddol i ddangos i gyflogwyr posibl ei bod yn weithiwr cydwybodol. Mae'r fenyw'n credu na fyddai hi wedi gwybod am gyfleoedd i wirfoddoli heb raglen Cyfuno.

# Prosiectau Eraill Rhaglen Cyfuno

## Cynllun yr Hyrwyddwyr Ifanc

Mae Cyfuno wedi darparu cyllid tuag at Gynllun Hyrwyddwyr Ifanc Noson Allan ers 2017. Mae'r cynllun hwn gan y Cyngor Celfyddydau yn gweithio gyda grwpiau o blant a phobl ifanc drwy eu harwain drwy'r broses o drefnu digwyddiad ar gyfer eu cymuned. Uchafbwynt y prosiect yw perfformiad gan gwmni proffesiynol a ariennir gan Noson Allan.

Mae cyfranogwyr yn cael profiad uniongyrchol o'r holl broses o hyrwyddo sioe, gan ganiatáu iddynt ddarganfod yr holl ymdrechion "y tu ôl i'r llen" sy'n rhan o reoli digwyddiadau. Mae'r Hyrwyddwyr Ifanc hefyd yn rheoli popeth ar noson y sioe, gan staffio'r swyddfa docynnau, cwrdd â phobl VIP,  gwerthu lluniaeth, gwneud areithiau ac ati. Y plant sy'n gwneud yr holl benderfyniadau ac yn gwneud yr holl waith!

Mae'r perfformiadau canlyniadol yn helpu i ddod â'r gymuned at ei gilydd ar gyfer digwyddiad gwych. Mewn rhai ardaloedd dyma'r perfformiad byw cyntaf mae llawer o'r plant, a hyd yn oed rhai o'r rhieni, wedi eu mynychu.

Yn 2019–20 derbyniodd Noson Allan £5,000 ychwanegol gan raglen Cyfuno. Cafodd 27 prosiect eu cynnal yn ardaloedd Cyfuno, wedi eu trefnu 25 mewn cydweithrediad â rhwydweithiau Cyfuno.

Mae enghreifftiau o'r prosiectau yn cynnwys:

- **Conwy: un prosiect mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ac un mewn ysgol ddwyieithog.**
- **Sir Gaerfyrddin: Cafodd dau o'r pum prosiect eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.**
- **Caerdydd: Un prosiect gyda Cardiff Muslim School a oedd wedi cael cyllid ychwanegol gan raglen Cyfuno Caerdydd.**
- **Casnewydd: Dau brosiect wedi eu cynnal gyda grwpiau o oedrannau cymysg**
- **Gwynedd: Ymunodd Cyfuno â dathliadau Dydd Miwsig Cymru fel rhan o'r prosiect.**
- **Caerffili a Thorfaen: Cynhaliwyd 12 prosiect yma, naw yng Nghaerffili a thri yn Nhorfaen.**
- **Mae'r berthynas agos barhaus â Phartneriaeth Cyfuno Caerffili a Thorfaen wedi arwain at bum prosiect Cynllun yr Hyrwyddwyr Ifanc, wedi eu cysylltu ag Arts Awards.  Mae'r cydlynydd, Janine Reed, yn credu "ei bod yn rhaglen wych sydd o fudd i'r plant a'r teuluoedd sy'n cymryd rhan".**

Mae'r prosiectau'n annog gwirfoddoli yn y gymuned ac yn darparu cyfleoedd dysgu ymarferol, gan helpu i ddatblygu sgiliau newydd ac annog gweithio fel tîm.

**Astudiaeth Achos – Prosiect Noson Allan yn ardal y Grant Her yng Nghasnewydd**

Cynhaliodd Noson Allan berfformiad o Orpheus yn Nhŷ'r Gymuned, Maendy, Casnewydd gyda'r grŵp cymunedol lleol Coffee and Laughs a Phrosiect Ieuenctid Maendy. Cafodd ei gefnogi gan yr Hyb Canolog a rhaglen Cyfuno.

Cynhaliwyd sesiynau wythnosol gyda'r grŵp o Hyrwyddwyr Ifanc yn ystod y cyfnod cyn y perfformiad. Gweithiodd yr Hyrwyddwyr ar farchnata a hyrwyddo gyda hwylusydd o Gyngor Celfyddydau Cymru a Chydlynydd Cyfuno. Cafodd y digwyddiad ei gefnogi gan yr Hyb Canolog, gan alluogi rhagor o'r gymuned i gael mynediad at y theatr a rhaglen Cyfuno. Ar y noson cymerodd 30 Hyrwyddwyr o Brosiect Ieuenctid Maendy a'r grŵp Coffee and Laughs ran yn y digwyddiad, a bu 80 o bobl yn y gynulleidfa.

Enghraifft o lwyddiant y digwyddiad mewn bywyd unigolyn yw Dennis, person ifanc a helpodd i drefnu'r digwyddiad, yn gofyn llawer o gwestiynau i'r grŵp theatr. Ar ôl clywed y côr yn perfformio gydag Operasonic, cafodd ef ei ysbrydoli i berfformio. Roedd yn falch ohono ei hun ac yn amlwg yn hapus iawn. Bu ar flaen ei sedd yn ffrynt y gynulleidfa am yr holl sioe yn gwylio gyda'i ffrind.

Oherwydd llwyddiant y sioe mae ei chwaer-sioe Eurydice, wedi cael ei threfnu ar gyfer mis Mehefin 2020.

*"Y Peth darodd fi am y digwyddiad oedd amrediad yr oedrannau a'r cefndiroedd ethnig. Cyflwynodd y perfformiad stori sy'n berthnasol i gymdeithas yr oes sydd ohoni. Yn y dyfodol hoffen ni wneud sioe dalent, ar ôl gweld yr holl bobl a grwpiau a oedd yn perfformio ar y nos."* Sue Lewis, Coffee and Laughs

*"Roedd mor hyfryd gweld Dennis yn gwneud y 'beatbox' cyn y sioe – yn ogystal â'r Roma ifanc a oedd yn helpu gyda'r digwyddiad ac yn rhyngweithio'n egnïol â phawb."* Bernardo Kerr, Rheolwr Tŷ'r Gymuned.



*© Naz Syed - Perfformiad cynllun Noson Allan o Orpheus gan Gobbledegook Theatr*

# Kids in Museums






© *Museum of Cardiff*

Mae Kid in Museums (KIM) yn elusen annibynnol sydd wedi ymrwymo i wneud amgueddfeydd, orielau, archifau a safleoedd treftadaeth eraill yn agored ac yn groesawgar i bob teulu, plentyn a pherson ifanc – yn enwedig y rhai sy’n ymweld am y tro cyntaf. Mae gan y sefydliad hanes o helpu amgueddfeydd, orielau, archifau a safleoedd treftadaeth eraill ledled Cymru i wneud mwy i gynnwys teuluoedd, plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar eu gwaith. Mae KIM yn derbyn cyllid gan raglen Cyfuno am ei gwaith yn ardaloedd Grant Her Cyfuno ac mewn mannau eraill ledled Cymru.

Prif ddigwyddiad y flwyddyn ar gyfer KIM yw Diwrnod Meddiannu, pan fydd amgueddfeydd, orielau, cartrefi hanesyddol, archifau a safleoedd treftadaeth yn gwahodd pobl ifanc i wneud y swyddi sydd fel arfer yn cael eu gwneud gan oedolion.

Yn 2019, bu 33 digwyddiad Diwrnod Meddiannu, a oedd yn cynnwys 800 o blant a phobl ifanc, cynnydd o dros 200 o gyfranogwyr.

Roedd lleoliadau yn ardaloedd Cyfuno a gymerodd ran yn cynnwys Plas Llanelly, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Amgueddfa Abertawe ac Archifau Gwynedd.

Roedd hefyd Ddiwrnodau Meddiannu Digidol, gyda phobl ifanc yn cymryd rhan mewn Diwrnod Meddiannu Twitter ac, am y tro cyntaf, diwrnod Meddiannu Instagram.

Anogir cydlynwyr Cyfuno i weithio mewn partneriaeth gyda KIM a defnyddio digwyddiadau fel ffordd o ddarparu cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae KIM yn darparu hyfforddiant, cymorth ac adnoddau ar gyfer eu digwyddiadau, ac mae partneriaid yn gweithio o fewn ardaloedd Cyfuno, gan gynnwys gyda gwirfoddolwyr a theuluoedd.

Cafodd Plasty Parc Howard yn Llanelli, ardal Cyfuno, ei enwebu ar gyfer Gwobrau Teulu-gyfeillgar y DU gyfan yn 2019. Er nad enillodd ef wobr, roedd bod ar y rhestr fer yn ddigon i roi cyhoeddusrwydd gwerthfawr ar gyfer yr amgueddfa – yn ogystal â chydnabod gwaith caled y staff a’r gwirfoddolwyr.

Ym mis Hydref 2019 cafodd yr helfa amgueddfeydd ‘Ble Mae Wali’ ei lansio mewn cydweithrediad â Walker Books. Mae wedi bod yn llwyddiant ac mae trafodaethau ynghylch ehangu’r helfa yn y dyfodol yn cael eu cynnal.

Roedd KIM hefyd yn darparu hyfforddiant ar roi cymorth i’r rhai sydd ag awtistiaeth sy’n ymweld ag amgueddfeydd,safleoedd treftadaeth a lleoliadau diwylliannol.

## Y Rhaglen Uchelgais Diwylliannol

Mae'r Prosiect Uchelgais Diwylliannol, sy'n cael ei reoli gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol – yn cael ei ariannu gan raglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac mae'n derbyn arian cyfatebol gan raglen Cyfuno. Cafodd y prosiect ei lansio'n swyddogol yn Hydref 2018, a'i nod yw rhoi hyd at 33 o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, nac yn raddedigion, y cyfle i gwblhau cymhwyster NVQ Lefel 2 mewn Treftadaeth Ddiwylliannol, wrth gwblhau lleoliadau gwaith ar safleoedd treftadaeth ledled Cymru dros 12 mis.

Mae'r hyfforddeion yn cael eu goruchwylio wrth iddynt gwblhau tasgau sy'n cefnogi eu cymhwyster – sy'n cael eu hasesu gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r unedau a gafodd eu dewis ar gyfer y cymhwyster yn cyfrannu at sgiliau a chyflogadwyedd cyffredinol y dysgwyr. Maent yn cynnwys meysydd fel marchnata, gwasanaethau cwsmeriaid a gweithgareddau dysgu creadigol.

Cwblhaodd y garfan gyntaf o saith cyfranogwyr eu hyfforddiant yn haf 2019. Cynhaliwyd digwyddiad arbennig ym Mhlas Mawr Conwy i ddathlu eu llwyddiant ym mis Mehefin.



*© Lauren Vickerman, Crefft Media*

Cwblhaodd yr ail garfan eu hyfforddiant ar ddiwedd 2019 a dechreuodd trydedd garfan ym mis Hydref 2019. Bydd pedwaredd garfan yn gwneud yr hyfforddiant yn 2021.

Mae'r prosiect hefyd yn gwneud gwahaniaeth i'r sefydliadau sy'n cynnig lle iddynt. Dywedodd Dai Price o Amgueddfa Big Pit ym Mlaenafon y canlynol am eu hyfforddeion:

*"Mae'r ddau unigolyn a gafodd leoliad gwaith yn Amgueddfa Big Pit wedi cael effaith enfawr ar y safle. Nid yn unig mae wedi bod yn foddhaol iawn gweld sgiliau a hyder yr unigolion yn tyfu, mae wedi bod yn gromlin ddysgu ddefnyddiol ar gyfer staff sydd wedi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd drwy'r profiad. Nid yw'n bosibl dweud digon am y manteision i'r sefydliad yn ogystal ag i unigolion."*

## Arts Awards

Yn 2019 gwnaeth Cyfuno ariannu a threfnu hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Darganfod ac Archwilio ar gyfer 18 unigolyn a oedd yn cymryd rhan yn rhaglen Cyfuno. Cynhaliwyd un sesiwn yng Ngogledd Cymru ac un yn y De. Nod yr hyfforddiant oedd galluogi'r hyfforddeion i helpu plant a phobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed i ddarganfod ac archwilio'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol. Mae Arts Award yn agored i bobl ifanc o bob cefndir, beth bynnag y bo'u diddordebau, a gellir darparu'r rhaglen mewn amryfal leoliadau ac yn unol ag amserlenni gwahanol drwy unrhyw weithgaredd ym maes y celfyddydau, diwylliant neu'r cyfryngau. Mae Darganfod yn gymhwyster Lefel Mynediad, ac mae Archwilio yn gymhwyster Lefel 3 ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau.

## Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd UCL

Mae pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd UCL yn set o fesurau a ddefnyddir i asesu'r lefelau o lesiant sy'n deillio o gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn amgueddfeydd ac orielau. Mae'r Pecyn Cymorth wedi cael ei gynllunio i helpu pobl sy'n cynnal prosiectau mewn amgueddfeydd ac ati neu brosiectau yn y gymuned i werthuso effaith y gwaith hwn ar lesiant eu cynulleidfaoedd. Gellir ei ddefnyddio i werthuso effaith digwyddiad untro neu raglen o ddigwyddiadau. Cafodd y Pecyn Cymorth ei gynhyrchu gan ymchwilwyr o University College London (UCL) ond nid oedd ar gael yn Gymraeg.

Gwnaeth Cyfuno ariannu a chomisiynu'r gwaith o gyfieithu'r Pecyn Cymorth i alluogi amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru i'w ddefnyddio gyda siaradwyr Cymraeg a darparu gwasanaeth llawn ddwyieithog.

## Blwyddyn Lwyddiannus Arall

Mae rhaglen Cyfuno yn parhau i fynd o nerth i nerth bob blwyddyn diolch i ymroddiad a gwaith caled ein partneriaid a'n cydlynwyr rhwydwaith. Nid yw'r astudiaethau achos yn y ddogfen hon ond yn enghraifft fach iawn o'r gwahaniaeth mae rhaglen Cyfuno wedi'i wneud i fywydau pobl.

Cafodd un o'r gwobrau mwyaf a dderbyniwyd o ganlyniad i gymorth gan raglen Cyfuno ei hennill gan y Gymdeithas Dai Tai Tarian yn ardal Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot. Gwnaethant ennill y wobr 'Cefnogi Cenedlaethau'r Dyfodol' I ddysgu mwy ewch i wefan Tai Tarian

**www.taitarian.co.uk/about-us/news/awards-success-for-tai-tarian-s-fusion-project/**

Mae Cyfuno wedi derbyn cyhoeddusrwydd a sylw rheolaidd yn y cyfryngau cymdeithasol drwy hyrwyddo #cyfunofusion yn frwd ar gyfrifon Twitter cydlynwyr. Isod mae rhai o'r hanesion o Twitter.



© Y Sefydliad Tai Siartredig


















# Atodiad 1: Rhaglenni Grantiau Her Cyfuno yn 2020

| ARDAL CYFUNO / CORFF ARWEINIOL | GWEITHGAREDD A CHANLYNIADAU* |
|---|---|
| **CAERDYDD**<br><br>**Amgueddfa Caerdydd** | Bydd Caerdydd yn gweithio gyda rhwydwaith o ddarparwyr diwylliannol a sefydliadau cymunedol yn ystod 2020-21. Bydd hyn yn cynnwys datblygu rhaglen o weithgarwch a phrosiectau unigol, gan ddarparu gweithgareddau hwyliog ac ystyrlon i blant, teuluoedd, pobl ifanc a'r henoed, gan greu cyfleoedd i bobl ag anableddau a phobl o gymunedau BAME, a darparu cyfleoedd i ennill cymwysterau dysgu achrededig, meithrin sgiliau a hyder drwy gwaith gwirfoddol a phrofiad gwaith.<br><br>Bydd yn canolbwyntio ar greu a chynyddu cyfleoedd i gymunedau difreintiedig gael mynediad at y cyfoeth eang a chyffrous o weithgarwch diwylliannol a threftadaeth yng Nghaerdydd. Bydd y rhaglen a greir yn ychwanegu gwerth i ddarpariaeth – o ran gweithgarwch grwpiau cymunedol a chyflawni gan sefydliadau diwylliannol. Bydd yn prif ffrydio mynediad cymunedau at dreftadaeth, diwylliant a'r clefyddydau: gan geisio annog pobl i gymryd rhan yn y lle cyntaf ('rhoi cynnig arni'), ac yna eu cefnogi i gyfranogi (cymryd rhan yn rheolaidd) mewn gweithgarwch diwylliannol yn eu cymuned.<br><br>Mae'r gweithgareddau allweddol a nodwyd yn cynnwys y canlynol:<br>• Mwy o weithgarwch drwy gael gwared ar rai o'r pethau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan ar hyn o bryd.<br>• Targedu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer costau gweithgareddau i weithio gyda sefydliadau llawr gwlad a'u cefnogi, gan eu helpu i fod yn gynaliadwy ac yn gydnerth o fewn eu cymunedau.<br>• Cyfarfod ac ymgysylltu, gan ddefnyddio eu gweithgarwch presennol fel man cychwyn (e.e. grwpiau babanod a phlant bach Dechrau'n deg mewn canolfannau Hwb Cymunedol).<br>• Cyfrannu at ddigwyddiadau a mentrau cenedlaethol (e.e. Hyrwyddwyr Ifanc, Gŵyl Amgueddfeydd Cymru, Diwrnod Meddiannu Kids in Museums, 'Get Creative' ac ati).<br><br>Bwriad y rhaglen yw bod yn adweithiol ac yn ymatebol i ddiddordebau'r grwpiau a'r unigolion a manteisio ar gyfleoedd sy'n dod i ran partneriaid diwylliannol a chymunedol er mwyn cynnwys allbynnau perthnasol i unrhyw brosiectau, partneriaethau ac amcanion strategol newydd, gan ymestyn cyrhaeddiad gwaith Cyfuno. |

| ARDAL CYFUNO / CORFF ARWEINIOL | GWEITHGAREDD A CHANLYNIADAU* |
| --- | --- |
| **SIR GAERFYRDDIN**<br><br>**Cyngor Sir Caerfyrddin** | Yn Sir Gaerfyrddin, ceir rhwydwaith Cyfuno sefydledig â 35 o aelodau sy'n cynrychioli'r Sector Cyhoeddus, Preifat, Gwirfoddol a Chymunedol. Mae'r rhwydwaith hwn yn galluogi dull gweithredu wedi'i dargedu i leihau tlodi, drwy ganolbwyntio ar unigolion o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig a chydweithio i gydgynhyrchu mentrau i gynyddu cyfranogiad a mynediad at wasanaethau diwylliannol.<br><br>Nod y prosiect yw:<br>• Cydnabod a gweithio tuag at ddymchwel rhwystrau i gyfranogiad<br>• Gwella ffyniant drwy gynnig lleoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli i unigolion sy'n ceisio dychwelyd i gyflogaeth/cael gafael ar gyflogaeth<br>• Creu cyfleoedd i unigolion sy'n wynebu llesiant meddyliol neu gorfforol gwael, drwy ddarparu rhaglen llesiant, yn seiliedig ar fodel pum ffordd at les Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br>• Annog pobl ifanc i ddysgu drwy'r celfyddydau creadigol a rhaglenni celfyddydol a meithrin eu sgiliau a'u hunan-barch.<br>• Cynnig llwyfan i annog dysgu teuluoedd, gan ddechrau yn y blynyddoedd cynnar.<br>• Cyflawni prosiectau i wella sgiliau digidol a sgiliau hanfodol.<br>• Rhoi cyfleoedd i feithrin sgiliau gan ddefnyddio rhaglenni hyfforddiant achrededig ac anachrededig<br>• Cefnogi cymunedau i ddod yn gyfartal, yn gydlynus, yn gydnerth ac yn ymatebol<br>• Gweithio gyda phartneriaid i greu cyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiannau creadigol<br>• Cynyddu a hyrwyddo mynediad at wasanaethau a gwybodaeth<br>• Gweithio gyda grwpiau difreintiedig i feithrin cyfalaf cymdeithasol drwy ymyriadau wedi'u targedu<br>• Integreiddio cymunedau ac unigolion sy'n rhannu diddordebau a gwerthoedd er mwyn lleihau ynysu cymdeithasol. |

| ARDAL CYFUNO / CORFF ARWEINIOL | GWEITHGAREDD A CHANLYNIADAU* |
|---|---|
| **CONWY**<br><br>**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | Mae ardal Grantiau Her Conwy yn gweithio i fynd i'r afael â heriau allweddol sy'n ymwneud â threchu tlodi ac ynysu cymdeithasol, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran cael gafael ar wasanaethau, cefnogi iechyd meddwl a llesiant a hyrwyddo cynhwysiant digidol (yn enwedig drwy waith rhwng y cenedlaethau).<br><br>Maent yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid gan gynnwys Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Venue Cymru, Criw Celf, Llenyddiaeth Cymru, Mostyn a Phrifysgol Bangor. Caiff gweithgarwch ei gyflawni ar draws amrywiaeth eang o leoliadau gan gynnwys amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac ysbytai. Bydd priosiectau allweddol yn cynnwys;<br>• Rhaglen o weithgareddau diwylliannol mewn partneriaeth â Chanolfan Conwy, a fydd yn gweithio ar draws gwasanaethau llyfrgelloedd, y celfyddydau, archifau ac amgueddfeydd i gyflwyno amrywiaeth eang o brosiectau celf weledol, adrodd straeon, ymchwil a dysgu a hel atgofion hygyrch. Bydd y rhain yn arbennig o fuddiol i bobl sy'n cael profiadau o ynysu cymdeithasol, pobl â diffyg mynediad at gyfleoedd diwylliannol, pobl â phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymhedrol, pobl o aelwydydd incwm isel, teuluoedd â phlant ifanc a phobl y mae dementia yn effeithio arnynt.<br>• Parhau i ddatblygu model Canolfannau Diwylliannol (CultureHub) yn y cymunedau mwyaf anghysbell<br>• Rhaglen o uwchsgilio creadigol ac ymgysylltu digidol ym Mae Colwyn drwy brosiect realiti estynedig rhwng y cenedlaethau ac amrywiaeth o weithgareddau wedi'u targedu.<br>• Cyfres o brosiectau llesiant sy'n gysylltiedig â hanes mynachaidd Abaty Aberconwy a threftadaeth Conwy a Bodlondeb gan ddefnyddio gardd synhwyraidd a gardd berlysiau newydd y Ganolfan ddiwylliannol a pharc Bodlondeb, gan weithio gydag ysgolion, grwpiau â nam ar y synhwyrau a phobl hŷn. |

| ARDAL CYFUNO / CORFF ARWEINIOL | GWEITHGAREDD A CHANLYNIADAU* |
|---|---|
| **GWYNEDD**<br><br>**Cyngor Gwynedd** | Mae Rhwydwaith Cyfuno o bartneriaid yng Ngwynedd sydd o'r farn ei bod yn flaenoriaeth i bartneriaid y rhwydwaith gael cydgysylltydd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n gydweithredol fel sector ac fel prosiect. Mae rôl y cydgysylltydd yn hanfodol er mwyn gweithredu blaenoriaethau'r rhwydwaith ac mae'n gyfrifol am weithredu a chydgysylltu rhan helaeth o'i flaenoriaethau, o drefnu cyfarfodydd i gydgysylltu partneriaid diwylliannol, addysgol, gwirfoddol a chymunedol.<br><br>Bydd y rhaglen waith yn cynnwys prosiectau mawr sy'n adeiladu ac yn ymestyn ar waith Cyfuno dros y blynyddoedd diwethaf;<br>• Llofnod Dysgu Teulu: Daw hyn ag ysgolion a'u partneriaid ynghyd (yr Amgueddfa Lechi, Cadw, Pontio ac ati) i feithrin gallu teuluoedd i gefnogi dysgu.<br>• Gwirfoddoli a phrofiad gwaith: Mae'r cydgysylltydd yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwirfoddoli a phrofiad gwaith ym maes diwylliant yng Ngwynedd. Yn amlwg, o ganlyniad i COVID-19, maent yn cydnabod y bydd yn rhaid iddynt ailystyried lleoliadau gwirfoddoli a phrofiad gwaith am na fydd hyn yn bosib bob amser yng ngoleuni'r rheoliadau a fydd ar waith.<br>• Iechyd a llesiant: Bydd y cydgysylltydd yn cydgysylltu prosiectau ac yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o ddiwylliant i wella iechyd a llesiant, er enghraifft y celfyddydau yn y cynllun peilot presgripsiynau a arweinir gan gymuned gelfyddydol Cyngor Gwynedd. Maent wrthi'n penodi ymchwilydd (a all weithio'n ddigidol) er mwyn dysgu sut y gall hyn weithio yng Ngwynedd. Ynghyd â Gwawr Roberts, Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd, bydd y cydgysylltydd yn rhan o'r prosiect hwn. Bydd hefyd yn gweithio gyda Chelfyddydau Cymunedol Gwynedd a'n partneriaid i hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol a gynhelir ganddynt ar-lein neu ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo iechyd a llesiant drwy ddiwylliant.<br><br>Bydd y cydgysylltydd yn parhau i weithio fel 'cyfeirlyfr' wrth helpu i gysylltu ysgolion/grwpiau cymunedol Gwynedd â'r Llyfrgell Genedlaethol, Casgliad y Werin Cymru, Diwrnodau Meddiannu a chynllun Nosweithiau Allan / Hyrwyddwyr Ifanc. |

| ARDAL CYFUNO / CORFF ARWEINIOL | GWEITHGAREDD A CHANLYNIADAU* |
|---|---|
| **CASNEWYDD**<br><br>**Cyngor Dinas Casnewydd** | Nod parhaus ardal Grantiau Her Casnewydd yw dangos bod diwylliant ar gyfer pawb a'i fod o'n cwmpas bob amser. Mae wedi sefydlu rhwydwaith cryf o ddarparwyr yn cynnwys y trydydd sector, cymdeithasau tai, cyrff cenedlaethol a sefydliadau cymunedol, gan gynnwys, yn ddiweddar, Race Equality Wales. Wrth symud ymlaen, bydd yn gweithio gydag Academi Ieuenctid Casnewydd, prosiect adfer y Market Arcade, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a rhanddeiliaid cymunedol allweddol eraill. Bydd y rhaglen yn adeiladu ar lwyddiannau blynyddoedd blaenorol ac yn parhau i annog preswylwyr mewn ardaloedd dan anfantais economaidd i ystyried yr hanes a'r amrywiaeth ar eu carreg drws eu hunain a hanes ehangach De Cymru. Byddant yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i ddatblygu rhaglen o brosiectau a gweithgareddau a fydd yn gwella mynediad i ddiwylliant ledled y ddinas.<br><br>Bydd y gwaith cyflawni a gynllunnir ar gyfer 2020 - 21 yn gwneud y canlynol:<br>• Canolbwyntio ar ddysgu teuluoedd, iechyd a llesiant a sgiliau a chyflogadwyedd.<br>• Darparu gweithgareddau perthnasol a lleol mewn amrywiaeth o amgylcheddau er mwyn annog mwy o gyfranogiad a gwaith gyda phartneriaid diwylliannol er mwyn ychwanegu gwerth at ddarpariaeth bresennol.<br>• Defnyddio diwylliant a threftadaeth i gyfeirio preswylwyr at ddysgu, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli.<br>• Darparu cyfleoedd dysgu pwrpasol, yn rhad ac am ddim neu wedi'u cymorthdalu.<br>• Datblygu proses atgyfeirio at y rhaglen a fydd yn flaenoriaeth, gan dargedu cyfranogwyr ar gyfer prosiectau partneriaid rhwydwaith lle y gallai'r prosiectau hynny gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau'r cyfranogwyr a'u teuluoedd.<br>• Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gwella cyfleoedd i bobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau, gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli, profiad gwaith a hyfforddiant.<br><br>Mae'r partneriaid diwylliannol yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw, Nosweithiau Allan Hyrwyddwyr Ifanc, Theatr The Shed ac Operasonic. Gwasanaeth Amgueddfeydd a Threftadaeth Threftadaeth Casnewydd yw partner arweiniol y rhaglen sy'n cynnwys y Llong Ganoloesol a'r Bont Gludo, a'i nod yw hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith cymunedau'r ddinas o'r treftadaeth maent yn ei rhannu. Casnewydd yw partner arweiniol y rhaglen sy'n cynnwys y Llong Ganoloesol a'r Bont Gludo, a'i nod yw hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith cymunedau'r ddinas o'r treftadaeth maent yn ei rhannu. |

<table>
<tr><th>ARDAL CYFUNO / CORFF ARWEINIOL</th><th>GWEITHGAREDD A CHANLYNIADAU*</th></tr>
<tr><td>ABERTAWE<br><br>Dinas a Sir Abertawe</td><td>Mae Abertawe yn hyrwyddo’r angen i wella mynediad at gyfleoedd diwylliannol i bobl sy’n byw dan anfantais economaidd. Mae’n canolbwyntio’n glir ar weithgarwch sy’n gwella llesiant a chyfleoedd bywyd ac mae’n rhoi pwyslais mawr ar bartneriaeth, gyda mwy na 200 o sefydliadau partner. Mae’n cynnal cyfarfodydd rhwydweithio bob chwarter sy’n helpu i hyrwyddo dysgu a rennir, nodau a chyfleoedd cyllid.<br><br>Ymhlith y cynlluniau sydd ar y gweill, mae’r canlynol:<ul><li>Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr,</li><li>Galluogi lleoliadau a phrosiectau i ddarparu amrywiaeth eang o raglenni am ddim i deuluoedd lleol. Mae Cyfuno yn ceisio cynyddu mynediad gan deuluoedd sy’n byw mewn tlodi a phlant sy’n derbyn gofal,</li><li>Gweithio’n agos gydag ysgolion lleol i gefnogi athrawon i gyflwyno rhaglen ddiwylliannol well.</li></ul>Nod y prosiect yw:<ul><li>Creu dysgu allgymorth mewn lleoliadau cymunedol hygyrch mewn amrywiaeth o gymunedau daearyddol,</li><li>Ystyried costau trafnidiaeth i leoliadau a phryd y gall gweithwyr rhan amser a rhieni fynychu,</li><li>Cynnal pob sesiwn mewn lleoliadau sy’n hygyrch i gyfranogwyr anabl a cheisio darparu ar gyfer pobl ag anghenion penodol, gan gynnwys pobl ag awtistiaeth, y rhai sydd wedi cael strôc a phobl ag anghenion dysgu penodol,</li><li>Creu sesiynau anffurfiol sy’n ei gwneud yn bosibl i gynnal dysgu mwy hamddennol yn ogystal â darparu bwyd a lluniaeth i bobl ar incwm isel.</li></ul>Mae’r gweithgarwch yn cwmpasu pob ffurf ar gelf, prosiectau treftadaeth a dysgu digidol. Mae’r rhaglenni creadigol hyn yn cefnogi sgiliau cyfathrebu gwell, sgiliau gwaith tîm gwell, sgiliau trefnu, mwy o hunangred ac agweddau gwell tuag at ddysgu. Y nod, lle y bo’n briodol, yw grymuso pobl i gymryd camau tuag at wneud cais am swydd neu gwrs coleg, neu i roi cynnig ar weithgaredd creadigol newydd, gan eu helpu i ymdopi’n well â’r anawsterau maent yn eu hwynebu.</td></tr>
</table>

| ARDAL CYFUNO / CORFF ARWEINIOL | GWEITHGAREDD A CHANLYNIADAU* |
| --- | --- |
| **CASTELL-NEDD PORT TALBOT**<br><br>**Tai Tarian** | Mae Cyfuno yng Nghastell-nedd Port Talbot yn bartneriaeth hirdymor, sy'n mynd ati'n fwriadol i ymgysylltu â phlant ac wyrion tenantiaid cymdeithas dai Tai Tarian. Mae'n defnyddio'i statws fel sefydliad angori yn y gymuned i agor drysau er mwyn i sefydliadau eraill ymgysylltu â'r gymuned a chyrraedd eu nodau llesiant. Mae Tai Tarian yn cydweithio â phartneriaid nad ydynt yn gysylltiedig â'r maes tai, e.e. Theatr Genedlaethol Cymru, Ffilm Cymru ac Amgueddfa Cymru, er mwyn sicrhau canlyniadau gwirioneddol a pharhaus i denantiaid a'u plant. Mae'r prosectau'n cynnwys:<br>• Ymgysylltu ag Ysgol Bae Baglan a Dechrau'n Deg, ac maent bellach yn ceisio ymestyn y gwaith i Gymuned Plant Gorllewin Sandfields, gyda menter gwrth-dlodi a arweinir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>• Gŵyl ffilmiau dros dro yng Ngorllewin Sandfields, wedi'i hwyluso gan aelodau presennol o grŵp llywio Ffilm Cymru, lle caiff teuluoedd a phobl ifanc eu grymuso i guradu a threfnu'r ŵyl<br>• Prosiect "Troed yn y Drws" Ffilm Cymru yn ystod Haf/Hydref 2020. Bydd y cyllid yn galluogi cydgysylltydd Cyfuno Tai Tarian i nodi a chefnogi cyfranogwyr i gymryd rhan mewn cwrs paratoadol yn y lle cyntaf (dull gweithredu tebyg i academi) a redir gan Ffilm Cymru, sy'n rhoi blas o wahanol rolau ar set ffilm, ac i gymryd rhan ym mhrif rhaglenni "Troed yn y Drws"<br>• Prosiect "Arwyr Lleol" a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth sinematig Port Talbot, gan gynnwys y sêr ffilmiau sy'n hannu o'r ardal. Mae'r prosiect yn gweithio gydag ysgolion lleol i greu arddangosfa sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth sinematig a gellir ei symud i amrywiaeth o leoliadau dros dro gwahanol.<br><br>Mae Tai Tarian yn bwriadu ymestyn y rhaglen bresennol, gan ganolbwyntio ar Bort Talbot a Chwm Aman i Gwm Tawe. Bydd yn gweithio gyda Rhaglen Cymunedau Cydnerth yr Awdurdod Lleol ynghyd â Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a Chwmni Theatr Mess Up The Mess i ailgreu'r gwaith arloesol a wnaed ym Mhort Talbot.<br><br>Bydd cyfres o brosiectau ar gael yn yr ardal leol a gall ysgolion ddewis y thema y byddant am ei datblygu yn unol ag anghenion eu cymunedau lleol. |

| ARDAL CYFUNO / CORFF ARWEINIOL | GWEITHGAREDD A CHANLYNIADAU* |
|---|---|
| **TORFAEN A CHAERFFILI**<br><br>**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | Bydd rhaglen Cyfuno yn parhau i ddatblygu ei gwaith gyda'i phartneriaid rhwydwaith, fel Cymunedau am Waith a Mwy, yn ogystal â rhaglenni cyflogaeth eraill yn y ddau Awdurdod Lleol a phedair agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, ac ar yr un pryd yn cysylltu â sefydliadau eraill fel Rhwydwaith Rhieni Caerffili. Ymhlith parteriaid eraill mae Cadw, Hyrwyddwyr Ifanc a Kids in Museums.<br><br>Mae'r rhaglen a gynllunnir yn cynnwys y canlynol:<br>• Rhaglen o ymyriadau sydd ar gael drwy'r rhwydwaith ehangach o bartneriaid diwylliannol sydd â'r nod o gynyddu a gwella cyfleoedd i'r rhai y mae tlodi yn effeithio arnynt fwyaf,<br>• Cyfleoedd newydd ar gyfer cyfathrebu a phartneriaeth rhwng cymunedau, ysgolion, llyfrgelloedd, sefydliadau llesiant, pobl greadigol a sefydliadau celfyddydau/diwylliannol/treftadaeth,<br>• Cyfeirio ysgolion a chyrff perthnasol eraill at gynlluniau a chyfleoedd Cenedlaethol priodol a, lle y bo'n berthnasol, eu cefnogi i gael y cyfleoedd a'r cyllid sydd ar gael iddynt, fel y gronfa i ysgolion, Ewch i Weld. Bydd cydgysylltydd Rhwydwaith Cyfuno hefyd yn cysylltu â rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg De-ddwyrain Cymru gyda'r nod o feithrin creadigrwydd,<br>• Gweithio gydag Ysgolion a Swyddogion Cynhwysiant i ddatblygu a chyfeirio prosiectau partner i gefnogi disgyblion a theuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol i wella eu presenoldeb, ymgysylltiad neu broblemau cymdeithasol neu emosiynol y gallai strategaethau eraill gael effaith arnynt, e.e. Prosiect 'Nosweithiau Allan Hyrwyddwyr Ifanc', sy'n gweithio gyda disgyblion penodol i wella eu hunanhyder, eu hunan-barch neu wella'u presenoldeb a'u hymgysylltiad cadarnhaol â'r ysgol,<br>• Cefnogi partneriaid rhwydwaith i ddatblygu prosiectau ymgysylltu ychwanegol ac ymyriadau i dargedu anghenion a nodwyd yn y cymunedau a'u cefnogi i wneud cais am gyllid trydydd parti ychwanegol,<br>• Cynnwys pobl leol benodol mewn hyfforddiant priodol, gwirfoddoli neu gyfleoedd uwchsgilio a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu sefyllfa deuluol neu bersonol. Parhau i weithio gyda'r gefnogaeth sydd ar gael drwy sefydliadau gwirfoddoli fel Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, y gwasanaethau Gwirfoddoli ym mhob ardal a Gwirfoddoli yng Nghymru;<br>• Gweithio gyda phartneriaid cyflogaeth i weithredu fel hwylusydd ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli addas i'w targedu at yr unigolion priodol, a helpu i sicrhau bod cyfleoedd gwirfoddoli gyda phartneriaid rhwydwaith a thu hwnt yn fwy hygyrch i gyfranogwyr y partneriaid cyflogaeth. Efallai y gall partneriaid Cyfuno gynnig lleoliadau gwirfoddoli neu gyflogaeth i bobl ifanc ar eu llwybrau i gyflogaeth. |

***Cyflwynodd pob un o'r ardaloedd Grantiau Her heblaw Gwynedd eu Cynlluniau Gweithgarwch cyn pandemig COVID-19.  Mae'r ardaloedd bellach wrthi'n diwygio eu cynlluniau gweithgarwch er mwyn addasu ar gyfer yr amgylchiadau presennol**

# Atodiad 2: Partneriaid Cyfuno Cenedlaethol

**Amgueddfa Cymru**

**Ballet Cymru**

**Cadw**

**Casgliad y Werin Cymru**

**Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC**

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

**Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol**

**Cronfa Waddol Cymunedau yn Gyntaf**

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

**Cymunedau am Waith**

**Dechrau'n Deg**

**Ffilm Cymru**

**Gwanwyn / Age Concern**

**Head4Arts**

**Kids In Museums**

**Llenyddiaeth Cymru**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

**Opera Cenedlaethol Cymru**

**Sgiliau Creadigol a Diwylliannol**

**Theatr Genedlaethol Cymru**

**Treftadaeth Ddisylw**

**Yr Urdd**

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

Mae ardaloedd Cyfuno hefyd yn gweithio gyda'u partneriaid lleol eu hunain gan gynnwys llyfrgelloedd, amgueddfeydd annibynnol ac ymarferwyr celfyddydau unigol.

# Atodiad 3: Wyth Dangosydd y Rhaglen Cyfuno

| Mesur Perfformiad | Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniad cefnogi gweithgarwch diwylliannol |
|---|---|---|---|
| **C1 Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu** | Cymru sy'n fwy cyfartal<br><br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae cyfranogwyr yn mynychu gweithgareddau diwylliannol strwythuredig yn hybu dysgu a datblygu o enedigaeth hyd at oedran ysgol. Fe'u cynhelir gan ystod o bartneriaid cymunedol a phartneriaid eraill, gan gynnwys darparwyr gofal plant, rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ac ysgolion. Caiff canlyniadau eu datblygu i fod o fudd i blant a rhieni/ gofalwyr. | • Cynlluniau i annog rhieni a gofalwyr i fod yn fwy parod i ddarllen / cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol gyda phlant<br>• Defnyddio gweithgareddau diwylliannol fel rhan o'r dull Llofnod Dysgu fel Teulu<br>• Sesiynau dysgu fel teulu pwrpasol mewn lleoliadau diwylliannol<br>• Sefydliadau diwylliannol yn cynnal gweithgareddau dysgu fel teulu mewn lleoliadau cymunedol |
| **C2 Ennill cymhwyster** | Cymru lewyrchus<br><br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br><br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r cleient yn ennill cymhwyster cydnabyddedig sydd wedi'i gynllunio'n bennaf i ddatblygu ei gyflogadwyedd. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau FfCChC a dyfarniadau perthynol e.e. Unedau Agored, Rhwydwaith y Coleg Agored Cenedlaethol. | • Drwy gymryd rhan yn yr hyn a drefnwyd gan gorff diwylliannol, mae cleient yn ennill achrediad/cymhwyster cydnabyddedig. Gall gynnwys Gwobr y Celfyddydau ar lefel Efydd, Arian ac Aur ac unedau megis Agored, Rhwydwaith y Coleg Agored ac eraill. |

| Mesur Perfformiad | Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniad cefnogi gweithgarwch diwylliannol |
|---|---|---|---|
| **C3 Gwirfoddoli'n rheolaidd - fel llwybr i waith yn ddelfrydol** | Cymru lewyrchus | Mae'r cleient yn gwirfoddoli o fewn lleoliad diwylliannol neu fel rhan o gorff treftadaeth yn rheolaidd.<br><br>Mae hyn yn ddelfrydol, ond nid yn unig, fel llwybr at waith. | • Mae corff diwylliannol yn darparu cyfleoedd i gleientiaid wirfoddoli, ac yn gweithio gyda rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd, asiantaethau cymunedol a phartneriaid eraill i ddewis a chefnogi cyfranogwyr addas.<br>• Mae cyrff diwylliannol yn gwobrwyo gwirfoddoli er enghraifft drwy fentrau bancio amser a hefyd yn cydnabod credydau bancio amser fel taliad. |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | | |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | |
| **C4 Cwblhau profiad gwaith** | Cymru lewyrchus | Mae'r cleient yn ymgymryd â profiad gwaith mewn lleoliad diwylliannol a/neu fel rhan o gorff diwylliannol neu dreftadaeth am gyfnod penodol. Dylai'r cleient fod wedi mynychu o leiaf 75% o'r amser. | • Mae'r corff diwylliannol yn gweithio gyda rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd neu raglenni atgyfeirio eraill i nodi cyfranogwyr a chynnig lleoliadau. |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | | |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | |

| Mesur Perfformiad | Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniad cefnogi gweithgarwch diwylliannol |
|---|---|---|---|
| **C5 Sgiliau digidol gwell** | Cymru lewyrchus<br><br>Cymru sy’n fwy cyfartal<br><br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Mae’r cleient wedi’i gefnogi i ddatblygu ei sgiliau digidol | • Hyfforddiant TGCh achrededig a chydnabyddedig (yn bennaf drwy lyfrgelloedd cyhoeddus)<br>• Cymryd rhan mewn rhaglenni treftadaeth ddigidol achrededig neu strwythuredig (e.e. Casgliad y Werin Cymru)<br>• Cymryd rhan mewn prosiect diwylliannol, sy’n canolbwyntio’n bennaf ar wella sgiliau digidol |
| **C6 Agwedd well tuag at ddysgu’n ffurfiol** | Cymru sy’n fwy cyfartal<br><br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Mae’r cleient yn dangos gwelliant mesuradwy yn ei agwedd tuag at ddysgu’n ffurfiol, a chyrhaeddiad o bosibl, drwy ymgysylltu â diwylliant. Dylai tystiolaeth gael ei darparu gan yr ysgol neu’r asiantaeth yn hytrach na’r cleient ei hun. | • Mae cyrff diwylliannol yn gweithio gydag ysgolion, asiantaethau cymunedol a chyrff eraill (e.e. unedau atgyfeirio) i gynnig gweithgareddau strwythuredig a gynlluniwyd i gefnogi pobl ifanc i wella cymhelliant, hyder a sgiliau ac arwain at agwedd well tuag at ddysgu. Mewn rhai achosion, gellir rhoi tystiolaeth ac adrodd ar berfformiad academaidd gwell. |

| Mesur Perfformiad | Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniad cefnogi gweithgarwch diwylliannol |
|---|---|---|---|
| **C7 Y gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well** | Cymru iachach<br><br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br><br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae cleientiaid yn rhoi gwybod bod ganddynt strategaethau rheoli gwell ar gyfer eu lles meddyliol ac/neu'n cael cymorth i'w helpu i wella eu iechyd corfforol, drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar wella eu hiechyd a'u llesiant. | • atgyfeiriad gan Feddyg Teulu / cynlluniau presgripsiwn sy'n defnyddio gweithgareddau diwylliannol<br>• Rhaglenni gwirfoddol<br>• Gwaith hel atgofion / cartref gofal sy'n defnyddio gweithgareddau diwylliannol<br>• Cyfranogiad diwylliannol ymarferol megis celf a chrefft fel gweithgaredd therapiwtig – yn ôl tystiolaeth Ysbryd Corff a Meddwl<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau corfforol a pherfformio â manteision iechyd clir iddynt (e.e. dawnsio, canu)<br>• Gweithgareddau diwylliannol sy'n cyfrannu at y 'Pum Ffordd at Les' (Y Sefydliad Economeg Newydd). |

| Mesur Perfformiad | Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniad cefnogi gweithgarwch diwylliannol |
|---|---|---|---|
| **C8 Gwella cydlyniant cymunedol** | Cymru sy'n fwy cyfartal<br><br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br><br>Cymru o gymunedau cydlynus | Mae cleientiaid yn dweud bod ganddynt ymdeimlad cryfach o berthyn i'r gymdeithas ehangach a'u bod wedi'u hintegreiddio ynddi.<br><br>Mae grwpiau lleiafrifol a chleientiaid yn dweud eu bod wedi dod o hyd i weithgareddau mewn lleoliadau diwylliannol a threftadaeth sy'n berthnasol iddynt eu hunain a'u cymunedau. | Prosiectau diwylliannol sydd â'r nod pennaf o:<br>• Ystyried a dathlu amrywiaeth diwylliannol, gweithio i waredu teimladau o ofn a diffyg ymddiriedaeth rhwng pobl o gefndiroedd hiliol, crefyddol neu ddiwylliannol gwahanol.<br>• Dymchwel rhwystrau i gyfranogiad gan bobl o gefndiroedd hiliol, crefyddol neu ddiwylliannol gwahanol.<br>• Cefnogi mudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau sydd wedi ymsefydlu yn ystod y broses integreiddio. |